**Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Education and Life-long Learning Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

The National Assembly for Wales

Rhodri Glyn Thomas AC

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant

Bae Caerdydd / Cardiff Bay

Caerdydd / Cardiff

CF99 1NA

Dyddiad: 27 Chwefror 2001

Date: 27 February 2001

**Y Pwyllgor Diwylliant: Blaenraglen Waith Strategol**

Yn ei gyfarfod ddydd Mercher 15 Chwefror, ystyriodd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes flaenraglen waith strategol y pwyllgorau pwnc eraill.

Nododd y Pwyllgor eich bod ar fin cytuno ar y cylch gwaith ar gyfer yr adolygiad polisi o'r Iaith Gymraeg. Mae gan y Pwyllgor Addysg ddiddordeb yn yr Iaith Gymraeg fel pwnc yn y Cwricwlwm Cenedlaethol ac yn y defnydd a wneir ohoni ar gyfer addysgu a dysgu. Mae'r ddau ohonom wedi cael rhywfaint o drafodaeth eisoes am sut y gall ein pwyllgorau gydweithio yn yr adolygiad pwysig hwn. Ystyriwyd dau bosibilrwydd gan fy Mhwyllgor, sef y naill, ei fod yn enwebu aelod i gymryd rhan yn ei adolygiad polisi ac yn adlewyrchu barn y Pwyllgor Addysg. Gallai'r Aelod a enwebwyd wneud hyn trwy adrodd yn ôl i'r Pwyllgor, a gallai'r Pwyllgor dderbyn yr holl bapurau perthnasol. Y dewis arall yw bod y Pwyllgor Addysg yn cynnal adolygiad o'r Iaith

Gymraeg mewn addysg a bod yr adolygiad hwn yn bennod ar ei phen ei hun yn eich adroddiad terfynol.

Roedd y Pwyllgor hefyd am ddatgan ei ddiddordeb yn eich adolygiad polisi arfaethedig ar chwaraeon, gan fod yma unwaith eto gysylltiad amlwg â'r sector addysg o ran cwricwlwm a hyfforddi athrawon.

Rydym am drafod y cynigion hyn yn fanwl ac rwyf felly wedi gofyn i'r Clerc gysylltu â Julia Annand i drefnu cyfarfod ar ein cyfer.

**Cynog Dafis**

Cadeirydd